

**Arolygiad Practis  
Deintyddol Cyffredinol:  
(Ile rhoddwyd rhybudd)**  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda,  
Practis Deintyddol Stryd  
Portland.

6 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.

Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [AGIC@wales.gsi.gov.uk](mailto:AGIC@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

|    |                                       |    |
|----|---------------------------------------|----|
| 1. | Cyflwyniad.....                       | 2  |
| 2. | Methodoleg .....                      | 2  |
| 3. | Cyd-destun.....                       | 4  |
| 4. | Crynodeb .....                        | 5  |
| 5. | Canfyddiadau .....                    | 6  |
|    | Profiad y Claf.....                   | 6  |
|    | Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ..... | 8  |
|    | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....      | 10 |
|    | Ansawdd yr Amgylchedd.....            | 12 |
| 6. | Y Camau Nesaf.....                    | 14 |
|    | Atodiad A.....                        | 15 |

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Stryd Portland yn 23 Stryd Portland, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2DX, yn yr ardal sydd dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 6 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.<sup>1</sup> Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiedig) 2011.<sup>3</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Rhoddir manylion am unrhyw ganfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Stryd Portland yn darparu gwasanaethau i tua 12,000 o gleifion yn ardal Aberystwyth, Ceredigion. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol Stryd Portland yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau preifat yn ogystal â gwasanaethau'r GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys saith deintydd (y mae un ohonynt yn locwm ac un arall dan hyfforddiant), dau hylenydd, un therapydd, 11 nyrs (y mae un ohonynt yn gydlynnydd cleifion hefyd ac mae dwy ohonynt dan hyfforddiant), un rheolwr practis, a thri aelod o staff derbynfa.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diagnosis ac atal
- Gwaith adferol
- Coronau a phontydd
- Triniaeth gosmetaidd
- Dannedd gosod
- Mewnosodiadau
- Arbedwyr dannedd ar gyfer chwaraeon

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Deintyddol Stryd Portland yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn.

Gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd ddiogel i gleifion. Gwelsom fod pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i threfnu'n dda. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gofal a ddarparwyd o safon uchel.

Roedd gan y practis ystod o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith a oedd yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel i gleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod staff yn cydweithio'n effeithiol. Roedd yna dîm cydlynol ac yn broffesiynol iawn.

Gwelsom fod y practis yn hynod o lân ac yn fodern, gyda digon o le, ac roedd wedi cael ei gynnal a'i gadw mewn modd priodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad at y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth gan holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol iawn.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddisbarthu holiaduron AGIC er mwyn casglu barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 25 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Gwnaethom hefyd sgwrsio â thri chlaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod nhw'n fodlon ar y gofal a'r driniaeth a gawsant yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn derbyn croeso gan y staff. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent wedi cael profiad o oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"...mae hwn yn bractis rhagorol. Rwy'n teimlo'n freintiedig i fod yn glaf."*

*"Mae'r practis yn drefnus tu hwnt, yn effeithlon, ac yn dangos ethos gofalgarg tuag at y claf."*

*"Mae'r driniaeth rwy'n ei derbyn fan hyn yn Portland gyda'r gorau rydw i erioed wedi'i chael o bell ffordd. Mae'r tîm i gyd yn mynd gam ymhellach er mwyn sicrhau bod eich profiad yn un cadarnhaol. Mae eu brwdfrydedd a'u gofal i gleifion yn rhagorol - gwasanaeth 5 seren."*

*"Mae'r practis yn lân iawn bob amser ac yn awyrog, ac mae'r staff yn gymwynasgar iawn bob amser."*

*"Rydw i'n fodlon iawn ar y gwasanaeth gwych, sydd o safon uchel."*

*"Gwasanaeth ardderchog – enghraifft berffaith o sut y dylai practis gael ei redeg."*

*"Pan ddes i i'r practis gyntaf, roeddwn i'n nerfus iawn ynghylch cael triniaeth ddeintyddol. Mae fy neintydd i wedi bod yn rhagorol, a bellach does gen i ddim yr un pryderon."*



Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn ymwybodol o sut i gael mynediad at y gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis a oedd yn cynnwys rhif cyswllt mewn argyfwng, a gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt wedi'i ddarparu ar beiriant ateb y practis a bod yr wybodaeth ar gael ar wefan y practis.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd staff wrthym fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod â chleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi'i gofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng, ac roedd hyn yn galluogi'r cleifion i gael eu gweld yn gyflym yn ôl yr angen.

Roedd taflenni gwybodaeth y practis o safon uchel, ac roedd copïau ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn y dderbynfa/man aros. Roedd gan y practis hefyd becyn croeso rhagorol a oedd yn cael ei anfon at bob claf newydd. Roedd hwn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, unwaith eto yn y Saesneg a'r Gymraeg. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd rhestr brisiau'r GIG yn gynwysedig. Roedd gwefan a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i gleifion, ac roedd hon yn glir ac yn hawdd i'w defnyddio.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Mae angen i'r practis gynnwys rhestr brisiau'r GIG yn eu pecyn croeso i gleifion newydd.***

Roedd gan y practis gydlynnydd cleifion hefyd a oedd yn bwynt cyswllt cyntaf i unrhyw gleifion newydd. Roedd hyn yn enghraifft o arfer da. Dywedodd cleifion ei bod yn gwneud iddynt deimlo'n ymlaciedig a'u bod yn gwybod i bwy i ofyn amdano ar eu hymweliad cyntaf.

Roedd gan y practis ystod o wybodaeth hyrwyddo iechyd yn y manau aros, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu a chodi ymwybyddiaeth am ganser y geg.

Roedd gan y practis system dda o ran casglu barn cleifion, a hynny drwy gyfrwng yr holiaduron a'r blwch awgrymiadau a welsom yn y man aros. Gwelsom fod y practis wedi dadansoddi canlyniadau arolygiadau ac wedi mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y practis. Mae hyn yn enghraifft dda o sut mae'r practis yn defnyddio adborth cleifion i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Pan wnaethom ofyn ynghylch gwneud cwynion, dywedodd ugain o gleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod y broses gwyno wedi cael ei harddangos yn yr ystafell aros lawr llawr, bod gwybodaeth

ynghylch gwneud cwyn wedi'i chynnwys yn y pecyn croeso i gleifion, a bod gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar gael ar wefan y practis. Fodd bynnag, nid oedd cyfeiriad AGIC yn gynwysedig. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr practis, a chafodd yr arwydd a oedd yn yr ystafell aros ei gywiro ar unwaith.

### ***Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal***

**Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd ddiogel i gleifion. Gwelsom fod pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i threfnu'n dda. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gofal a ddarparwyd o safon uchel.**

### **Cyfleusterau Clinigol**

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol saith ystafell driniaeth yn y practis a gweld eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i threfnu'n dda. Roedd yr arwynebau i gyd yn rhydd wrth annibendod er mwyn caniatáu glanhau effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o'r trefniadau glanhau dyddiol sy'n cael eu cynnal gan y nyrsys, ac roeddent wedi cael eu cofnodi'n glir. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal, er mwyn gwirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

### **Dadheintio Offer**

Roed gan y practis ddwy ystafell neilltuedig fach ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwelsom fod prosesau addas ar waith er mwyn atal cleifion rhag croes-heintio. Ar y cyfan, roedd yr ystafelloedd wedi'u trefnu'n addas er mwyn caniatáu i'r offer gael ei lanhau mewn modd effeithiol. Serch hynny, roedd cynlluniau ar waith i adleoli'r ystafell ddadheintio, a byddai'r broses hon yn dechrau ym mis Mehefin eleni. Byddai hefyd yn cynnwys prynu cyfarpar newydd. Roedd system nodedig o gofnodi dyddiadau hefyd er mwyn sicrhau bod offer yn cael ei ddefnyddio o fewn y terfyn amser a argymhellir.

Gwelsom fod y polisi rheoli heintiau ar gael. Gwelsom hefyd fod llyfrau cofnodion addas wedi'u cwblhau ar gyfer y gwaith dyddiol o brofi a chynnal a chadw cyfarpar glanhau. Roedd hefyd gan y practis lyfryn cofnodion dyddiol ar gyfer gwiriadau eraill a wnaed gan y nyrsys bob dydd. Roedd yr holl lyfrau cofnodion wedi cael eu cwblhau i safon dda. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system dda i sicrhau bod y cyfarpar glanhau yn gweithio'n gywir.

Gwelsom dystiolaeth bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadheintio a rheoli heintiau. Gwnaeth y practis gynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar, gan

ddefnyddio'r dull archwilio a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd, yn unol â'r hyn a argymhellwyd yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

### **Cael gwared ar wastraff**

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu ar wastraff cyfredol ar waith.

### **Cyfarpar radiograffig (pelydr-X)**

Ac eithrio ar gyfer un ystafell driniaeth, canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Mae'r angen i'r switsh ynysu yn yr ystafell driniaeth hon gael ei hadleoli, y tu allan i'r parth dan reolaeth. Roedd y dogfennau perthnasol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phrofion, ar gael. Gwelsom dystiolaeth bod y staff clinigol cymwysedig i gyd wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol mewn ymbelydredd ïoneiddio. Gwelsom y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion ynghylch y cyfarpar pelydr-X a gweithdrefnau i staff eu dilyn, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod y switsh ynysu ar gyfer cyfarpar pelydr-X yn cael ei gosod y tu allan i'r parth dan reolaeth ym mhob ystafell driniaeth.***

### **Meddyginiaeth a chyfarpar meddygol mewn argyfwng**

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth pe bai digwyddiad argyfyngus gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd gan y practis system addas ar waith i sicrhau bod y cyfarpar dadebru a'r feddyginiaeth at ddibenion argyfwng yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth bod staff y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag achosion brys meddygol a bod gweithwyr cymorth cyntaf wedi cael eu penodi. Pe bai problem feddygol, golygai hyn y byddai gan staff y sgiliau angenrheidiol a mynediad at gyfarpar a chyffuriau achub bywyd i'w galluogi i weithredu ar unwaith. Fodd bynnag, fe wnaethom drafod buddiannau chwistrellydd awtomatig i blant sydd wedi'i fesur ymlaen llaw â'r prif ddeintydd (at ddibenion ymateb alergaidd difrifol), a chafodd hwn ei archebu ar unwaith.

## **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar 21 o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, gwelsom fod y dull o gadw cofnodion o safon uchel iawn.

Esboniwyd gweithdrefnau ac opsiynau mewn perthynas â thriniaethau ar lafar i'r cleifion a'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Gwnaeth yr holl gleifion dderbyn cynlluniau triniaeth, a chwblhawyd holl agweddau'r cofnodion electronig unigoledig. Roedd gan y practis system dda iawn ar gyfer olrhain atgyfeiriadau, a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal priodol ac amserol.

## ***Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Roedd gan y practis ystod o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith a oedd yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel i gleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod staff yn cydweithio'n effeithiol. Roedd yna dîm cydlynol ac yn broffesiynol iawn.**

Mae Practis Deintyddol Stryd Portland yn berchen yn annibynnol i ddau brif ddeintydd. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n effeithlon a bod staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Dywedodd y staff y siaradwyd â hwy ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn fodlon ar eu swyddogaethau, bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan y prif ddeintydd. Yn ystod ein trafodaethau â'r deintyddion, daeth i'r amlwg bod ganddynt lefel uchel o ofal a thosturi dros eu cleifion a'u bod yn awyddus bob amser i weithio er eu budd gorau.

Gwelsom fod gan y practis ystod o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith, ac roedd system addas ar gael i sicrhau bod y polisiâu hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y polisiâu yn unigryw i'r practis, ac roeddent yn cynnwys y dyddiad y cawsant eu llunio a'u diweddarau.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal tua bob pythefnos, gan amrywio rhwng cyfarfod byr a chyfarfod hirach am yn ail. Gwelsom enghreifftiau o nodiadau cyfarfodydd diweddar a oedd yn cynnwys manylion am drafodaethau a chymau gweithredu a oedd yn deillio o'r cyfarfodydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i nodi unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn, ond fe fyddent hefyd yn teimlo'n hapus i nodi pryder â'r prif ddeintyddion neu'r rheolwr practis ar unrhyw adeg.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol, a bod y rhain yn sicrhau cymhwysedd y staff ac yn adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant neu anghenion datblygu.

Mae'r practis yn bractis hyfforddi sefydledig ar gyfer deintyddion, ac ar hyn o bryd roedd un deintydd yna yn ymgymryd â blwyddyn sylfaen hyfforddiant deintyddol. Roedd gan y practis ardal benodol lle gallai hyfforddeion astudio, ac roedd hyn yn dangos ymrwymiad i gynnig safon uchel o gymorth i'r deintydd dan hyfforddiant.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod y deintyddion yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd, ac roedd y rhain wedi'u cofnodi. Golygai hyn fod gan y practis drefniadau llywodraethu clinigol addas ar waith i helpu sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth y staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol. Gwelsom dystiolaeth bod gan yr holl staff gytundebau cyflog ar waith.

Gwelsom enghreifftiau rhagorol o hyfforddiant personol ym maes datblygiad proffesiynol parhaus a gwblhawyd gan staff yn y practis, ac roedd yn dangos bod gan y staff fynediad at gyfleoedd hyfforddiant perthnasol i'w rôl. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cael eu sicrhau eu bod yn cael eu trin gan staff â sgiliau perthnasol a chyfredol ac a oedd yn hyderus ac yn gyfarwydd â'u gweithle. Roedd ffeiliau staff yn drefnus, ac roedd yr wybodaeth yn hawdd i'w chanfod.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan bob deintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd trefniadau addas ar gyfer cymorth iechyd galwedigaethol ar waith drwy'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi cael brechiadau priodol i'w gwarchod rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi ac ymateb i bryderon (cwynion). Gwelsom fod yr holl ohebiaeth a oedd yn ymwneud â chwynion yn cael ei chadw ynghyd mewn ffeil bapur. Roedd cwynion a wnaed ar lafar a chwynion anffurfiol wedi cael eu cofnodi'n briodol ar system electronig.

Canfuom fod y weithdrefn gwyno yn cydymffurfio â threfniadau'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG a adweinir fel Gweithio i Wella, ac roedd rhestr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe bai cwyn ganddynt. Fodd bynnag, nid oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)

2008, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriad AGIC fod ar gael hefyd i gleifion preifat. Pan dynnwyd sylw at hyn, cafodd ei gywiro ar unwaith.

### ***Ansawdd yr Amgylchedd***

**Gwelsom fod y practis yn hynod o lân ac yn fodern, gyda digon o le, ac roedd wedi cael ei gynnal a'i gadw mewn modd priodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad at y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.**

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol tref Aberystwyth. Mae gan y practis saith ystafell driniaeth: tri ar y llawr daear, tri ar y llawr cyntaf, ac un ar yr ail lawr. Nid oes gan y practis ardal neilltuedig i gleifion barcio eu ceir, ond gellir parcio ar ymyl yr heol yn agos at y practis.

Mae mynediad at y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, ac roedd fframiau'r drysau drwy gydol llawr daear y practis yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i gadeiriau olwyn. Nid oes lifft i'r llawr cyntaf na'r ail lawr, ond byddai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn cael eu gweld yn yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear.

Roedd taith o amgylch yr adeilad yn cadarnhau bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y practis yn eithriadol o lân, yn daclus, ac wedi'i oleuo'n ddigonol drwyddi draw. Roedd yn darparu amgylchedd dymunol iawn i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd y dderbynfa a'r manau aros o faint priodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd safon y celfi a'r gwaith cynnal a chadw yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd triniaeth yn uchel, er bod angen selio'r arwynebau rhwng y waliau a'r llawr mewn tair ystafell driniaeth.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod yr arwynebau rhwng y waliau a'r llawr yn cael eu selio'n briodol er mwyn hyrwyddo mesurau rheoli heintiau da ac i leihau croes-heintio.***

Roedd gan y practis dri thŷ bach, dau i'r cyhoedd ac un i'r staff. Roedd un tŷ bach a oedd ar y llawr daear yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn, ac roedd wedi'i addurno i safon uchel iawn. Roedd pob tŷ bach yn edrych yn lân, ac roedd cyfleusterau ymolchi dwylo addas ar gael i reoli heintiau.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis ac arno oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng. Roedd enwau, cymwysterau a rhifau cofrestru'r staff gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos ar ddrws y fynedfa ac ar

boster ar bwys y dderbynfa. Roedd rhestrau prisiau wedi'u harddangos hefyd yn y dderbynfa.

Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis.

Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân, a chafodd y diffoddwyr tân eu harchwilio'n ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth bod mesurau a systemau ar waith i amddiffyn staff a chleifion mewn tân. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Roedd cofnodion a gwybodaeth am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd cofnodion electronig yn cael eu hategu bob dydd ar weinydd allanol. Golygai hyn fod y practis wedi cymryd rhagofalon i ddiogelu cleifion a'u gwybodaeth.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, gwelwyd bod angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad y Claf, Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal, ac Ansawdd yr Amgylchedd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Stryd Portland yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Ar ôl cymeradwyo'r cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.



## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol Stryd Portland**

**Dyddiad yr Arolygiad: 6 Mai 2015**

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella   | Cam gweithredu'r practis  | Swyddog cyfrifol | Amserlen   |
|----------------|--|---|------------------|--|
|                | <b>Profiad y claf</b>  |   |                  |  |
| Tudalen 7      | Mae angen i'r practis gynnwys rhestr brisiau'r GIG yn eu pecyn croeso i gleifion newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safon 2.4.2 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.  | Bydd y practis yn cynnwys ffioedd y GIG yn y pecyn croeso a fydd yn cael ei anfon at gleifion newydd. | Mr Huw Davies    | Ar unwaith   |
|                | <b>Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal</b>   |   |                  |  |
| Tudalen 9      | Mae angen i'r practis sicrhau bod y switsh ynysu ar gyfer cyfarpar pelydr-X yn cael ei gosod y tu allan i'r parth dan reolaeth ym mhob ystafell driniaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd | Bydd y switsh ynysu yn cael ei symud i leoliad y tu allan i'r parth dan reolaeth.                     | Mr Huw Davies    | Gwnaeth trydanwr ymweld ar unwaith i gynnal asesiad, ac fe fydd yn |

| Rhif y Dudalen                     | Yr hyn sydd angen ei wella   | Cam gweithredu'r practis                   | Swyddog cyfrifol | Amserlen                        |
|------------------------------------|--|--|------------------|---------------------------------|
|                                    | Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Safonau Iechyd a Gofal 2.9.  |  |                  | dechrau ar y gwaith ar 30.5.15. |
| <b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b> |  |  |                  |                                 |
|                                    | Nid oes angen gwneud gwelliannau.  |  |                  |                                 |
| <b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>       |  |  |                  |                                 |
| Tudalen 12                         | Mae angen i'r practis sicrhau bod yr arwynebau rhwng y waliau a'r llawr yn cael eu selio'n briodol er mwyn hyrwyddo mesurau rheoli heintiau da ac i leihau croes-heintio. Bydd hyn yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5, Safonau Iechyd a Gofal 2.9, a Rheoliadau Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992. | Bydd y sgertin a'r llawr yn cael eu selio. | Mr Huw Davies    | Ar unwaith                      |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):** Mr Huw Davies

**Teitl:** Pennaeth y Practis

**Dyddiad:** 22 Mai 2015